**EITEM AR Y RHAGLEN: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20 Mehefin 2011**

**GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2010-2011**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn un o ofynion trefnau cofnodi'r Awdurdod, ac mae'n cynnwys gweithgarwch y trysorlys ar gyfer 2010-2011. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2010-2011, yn unol â gofynion y Cod Darbodus.

**GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2010-2011**

**Crynodeb o'r Strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer 2010-2011**

2 Rhagfynegodd Sector, sy'n ymgynghorwyr Trysorlys yr Awdurdod, y byddai'r flwyddyn Ariannol 2010-2011 yn gweld y gyfradd sail yn codi o 0.5% i 1% gyda chyfraddau tymor byr yn parhau'n isel am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Cafwyd argymhelliad i fanteisio ar y ddyled tymor byr rhatach drwy symud o gyfraddau sefydlog tymor hirach. Y strategaeth oedd cymryd y ffurf fwyaf priodol o fenthyca gan ddibynnu ar y cyfraddau llog ar y pryd ac ystyried y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ailstrwythuro dyledion. Dylid cymryd agwedd wyliadwrus tuag at fuddsoddi cronfeydd, ni ddylai'r buddsoddiadau hiraf fod yn hirach na thri mis a dylid dadansoddi'r holl wybodaeth sydd ar gael ar gyfatebwyr cyn buddsoddi.

## Y Cefndir Economaidd ar gyfer 2010-2011

3 Roedd rhagolwg economaidd ar gyfer 2010-11 yn rhagweld y byddai'r gyfradd sail yn codi rhyw fymryn i 1% ac y byddai gostyngiad yng nghyfradd fenthyca tymor byr y PWLB. Roedd y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn yn anghywir ac mae'r gyfradd sail wedi parhau ar 0.5% ac ychwanegodd y Llywodraeth newydd premiwm o 1% at fenthyciadau newydd PWLB. Mae'r premiwm ar fenthyciadau PWLB wedi eu gwneud yn llai cystadleuol ac roedd posib canfod adnoddau rhatach o fenthyca na Banc Lloegr. Roedd pryderon am y sector Fancio yn dal yn amlwg ac ar gyfer strategaethau buddsoddi Awdurdodau Lleol y prif flaenoriaeth oedd sicrhau diogelwch cronfeydd. Parhaodd nifer fawr o Awdurdodau Lleol i fuddsoddi cronfeydd dros ben ym Manc Lloegr ac Awdurdodau Lleol eraill yn hytrach na Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, gan aberthu elw er mwyn cael sicrwydd. Cymrodd yr Awdurdod agwedd wyliadwrus ar fuddsoddiadau gan fuddsoddi dros dro mewn Sefydliadau Bancio a Chymdeithasau Adeiladu Prydeinig ar y rhestr o gyfatebwyr yn unig. O safbwynt benthyca, manteisiodd yr Awdurdod ar y cyfraddau llog isel gan fenthyca dros y tymor byr gyda chymysgedd o gyfraddau sefydlog ac amrywiol, gan ddilyn cyngor Sector. Benthycodd yr Awdurdod gan Awdurdodau Lleol eraill hefyd, gan fanteisio ar y cyfraddau llog isel oedd ar gael. Nid oedd unrhyw gyfleoedd i ailstrwythuro yn ystod y flwyddyn.

## Gweithgarwch Benthyg

4 Cymerir benthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod Tân ac Achub. Cymerwyd benthyciadau gwerth 3.2m yn 2010-2011 i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf. Er hynny, benthycodd yr Awdurdod £765,000 yn llai nag a ddisgwyliwyd yn ôl ei Ofyniad Cyllido Cyfalaf (Capital Financing Requirement – CFR). Yn ystod y flwyddyn aeddfedodd gwerth £6,914,000 o fenthyciadau PWLB cyfradd tymor penodol, disodlwyd y rhain gyda rhai benthyciadau PWLB cyfradd amrywiol a rhai benthyciadau cyfradd tymor penodol gan Awdurdodau Lleol eraill er mwyn fanteisio ar y cyfraddau llog isel oedd ar gael.

## Buddsoddiadau

5 Mae polisi buddsoddi'r Awdurdod yn cael ei bennu gan Ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei weithredu yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod 15 Rhagfyr 2003. Roedd y gweithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd, ac ni chafodd yr Awdurdod unrhyw drafferthion hylifedd.

6 Buddsoddwyd yr holl arian oedd dros ben yn y farchnad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub. Balans buddsoddiadau'r flwyddyn ar gyfartaledd oedd £3,000,000 a balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2011 oedd £3,350,000 o'i gymharu â £4,020,000 ar 31 Mawrth 2010.

7 Mae balans yr arian sydd ar gael i'w fuddsoddi wedi gostwng ychydig oherwydd fod yr Awdurdod wedi tan-fenthyg am y flwyddyn, gyda rhai o'r cronfeydd dros ben a allai fod wedi eu buddsoddi wedi cael eu defnyddio i danategu safle benthyca'r Awdurdod. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer llog buddsoddi, £50,000, pan roedd y gyfradd sail yn 0.5%, ac y rhagwelwyd y byddai'n codi i 1%. Fodd bynnag y llog a gafwyd oedd £34,581.

## DANGOSYDDION DARBODUS

8 Yn unol â'r Cod Darbodus, mae gofyn i'r Awdurdod roi gwybod am wir ddangosyddion darbodus ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr y dangosyddion darbodus gorfodol. Mae rhai o'r dangosyddion hyn naill ai'n rhoi trosolwg neu derfyn ar weithgarwch trysorlys, a dangosir y rhain isod:

| | **2011 Gwir £'000** | **2011 Dangosydd Gwreiddiol £'000** |
|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca | 19,391 | 23,252 |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 20,156 | 23,252 |

9 Mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn dangos angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyg i ddiben cyfalaf, ac mae hyn yn ffordd o fesur sefyllfa dyled y Cyngor fel y dangosir uchod. Er mwyn sicrhau y bydd gwir fenthyca buddsoddiadau dros y tymor canolig ar gyfer cyfalaf yn unig, ni ddylai'r benthyg, ar wahân i fenthyg tymor byr, fod yn fwy na'r CFR ar gyfer 2010-2011 ynghyd â'r newidiadau disgwyliedig i'r CFR yn ystod 2011-2012 a 2012-2013. Mae'r tabl uchod yn amlygu'r ffaith fod sefyllfa benthyg net yr Awdurdod wedi bod yn is o £765,000 na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar gyfer 2010-2011.

10 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r "Terfyn Benthyca Fforddiadwy", sydd yn ofynnol dan adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl isod yn dangos fod yr Awdurdod wedi cadw ei fenthyca gros o fewn y Terfyn Awdurdodedig yn ystod 2010-2011.

11 Y Ffin Weithredol yw sefyllfa benthyg ddisgwyliedig yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pan fo'r gwir sefyllfa o dan, neu dros y Ffin yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n uwch na'r Terfyn Awdurdodedig.

| | **2010/11 £'000** |
|---|---|
| Dangosydd Gwreiddiol – Terfyn a Ganiateir | 25,252 |
| Dangosydd Gwreiddiol – Ffin Weithredol | 23,252 |
| Y mwyafswm o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 19,391 |
| Yr isafswm benthyca yn ystod y flwyddyn | 15,972 |

## Y FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO, RISG A PHERFFORMIAD

12 Mae gweithgarwch rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cael ei reoli gan nifer o godau, statudau a chanllawiau proffesiynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf), sy'n darparu'r pwerau i fenthyg a buddsoddi yn ogystal â rhoi cyfyngiadau a therfynau ar y gweithgarwch hwn;

- Mae’r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru osod terfynau un ai ar yr Awdurdod neu’n genedlaethol ar bob awdurdod lleol, gan gyfyngu ar y benthyca a ganiateir (er na wnaed unrhyw gyfyngiadau yn 2008-2009);

- Mae’r Cyfrwng Statudol – (Statutory Instrument SI) 3239 (W319) 2003, diwygiedig, yn datblygu ac yn rheoli pwerau o fewn y Ddeddf

- Mae’r Cyfrwng Statudol yn mynnu bod yr Awdurdod yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch benthyca gan ystyried Côd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol;

- Mae’r Cyfrwng Statudol hefyd yn mynnu bod yr Awdurdod yn cymryd gofal am holl weithgarwch y trysorlys gan ystyried Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus;

- Dan y Ddeddf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Canllaw Buddsoddi i strwythuro a rheoli gweithgarwch buddsoddi’r Awdurdod.

13 Mae’r Awdurdod wedi cydymffurfio â’r holl ofynion statudol a rheoleiddio perthnasol uchod sy’n rhoi terfyn ar lefel y risg sy’n gysylltiedig â’i weithgarwch rheoli trysorlys. Yn benodol, mae’r ffaith ei fod wedi mabwysiadu a gweithredu’r Côd Darbodus a’r Côd Ymarfer ar gyfer Rheoli Trysorlys yn golygu bod ei wariant cyfalaf yn ddoeth, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac mae ei arferion trysorlys yn dangos agwedd risg isel.

14 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i’r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mehefin 2011 er mwyn adolygu’r cynnwys cyn ei gyflwyno i’r Awdurdod Tân ac Achub. Doedd gan y Pwyllgor ddim sylwadau penodol i’w gwneud ac ni chanfuwyd unrhyw risg sylweddol, ac felly’n argymell fod yr Awdurdod yn cymeradwyo’r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

15 Argymhellir bod yr Aelodau yn cymeradwyo’r gwir Ddangosyddion Darbodus 2010-2011.

***ATODIAD A***

| | | **2010/11 Gwir** | **2010/11 Dangosydd Gwreiddiol** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 6,725,086 | 7,621,000 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 20,156,418 | 23,252,000 |
| 3 | Benthyca | 19,391,095 | 23,252,000 |
| 4 | Buddsoddiadau | 3,350,000 | 2,500,000 |
| 5 | Terfyn a Ganiateir | 19,391,095 | 25,252,000 |
| 6 | Ffin Weithredol | 19,391,095 | 23,252,000 |
| 7 | Cymhareb y Costau Ariannu â Llif Refeniw Net | 5.61% | 6.48% |
| 8 | Effaith gynyddol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol | 134,502 | 72,000 |
| 9 | Benthyciadau Cyfradd Llog Sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 70.67% | 55% - 100% |
| 10 | Benthyciadau Cyfradd Amrywiol fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 29.33% | 0% - 45% |
| 11 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 46.41% | 0% - 50% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 21.59% | 0% - 50% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 20.62% | 0% - 50% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 0% | 0% - 75% |
| | 10 mlynedd a hirach | 11.36% | 0% - 100% |
| | | | |